

# Beibl i Blant yn cyflwyno

## Iesu a Sacheus



Awdur: Edward Hughes  
Lluniau gan: Janie Forest  
addaswyd gan: Ruth Klassen  
Alastair Paterson  
Cyfieithydd: Catrin Roberts  
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children  
[www.M1914.org](http://www.M1914.org)

BFC  
PO Box 3  
Winnipeg, MB R3C 2G1  
Canada

©2020 Bible for Children, Inc.

Trwydded: mae gennych hawl i gopio neu argraffu'r stori hon,  
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.




Un diwrnod,  
aeth Iesu i mewn i  
Jericho. Dyma'r  
ddinas gafodd  
ei dinistrio  
gan Josua  
ganrifoedd yn  
ôl. Roedd wedi  
cael ei hail-adeiladu  
ac roedd llawer o  
bobl yn byw yno -  
gan gynnwys dyn o'r  
enw Sacheus.



Doedd pobl Jericho ddim yn hoff iawn o Sacheus, am fod rhaid iddyn nhw dalu trethi iddo fe. Roedd Sacheus yn anfon ychydig o'r arian i'r llywodraeth, ond roedd e'n cadw llawer iddo'i hun.


3

Roedd ei waith fel casglwr trethi wedi gwneud Sacheus yn gyfoethog iawn. Ai tŷ Sacheus oedd y FWYAF yn yr ardal?




4

Ond roedd Sacheus yn ddyn byr. Doedd Sacheus ddim wedi tyfu fel pobl eraill.



5



Pan glywodd Sacheus fod Iesu wedi dod i Jericho, roedd e am weld y Dyn o Nasareth oedd yn dweud ei fod yn Fab Duw. Ond roedd yna dyrfa fawr... ac roedd y bobl yn dal.

6

Cafodd Sacheus syniad! Petai e'n gallu dringo coeden oedd yn tyfu wrth ymyl y ffordd ... byddai'n gallu gweld Iesu.

7


Wedi dringo coeden sycamor, eisteddodd Sacheus yn gyfforddus ar fforch yn y gangen a disgwyl am Iesu. Efallai iddo feddwl, "Byddai'n gallu gweld Iesu yn glir, ond bydd neb yn gallu fy ngweld i."

8

"Sacheus, brysia! Tyrd i lawr!" Doedd y casglwr trethi bach ddim yn gallu credu ei glustiau. Roedd Iesu'n sefyll o dan y goeden ac yn edrych arno. Roedd Iesu'n galw arno fe!




9




Os oedd clywed Iesu'n galw arno yn synnu Sacheus, mae'n siŵr ei fod wedi ei synnu'n fwy pan ddywedodd Iesu, "Mae'n rhaid i mi aros yn dy dŷ di heddiw." Daeth Sacheus i lawr o'r goeden ar gymaint o'frys, bu bron iddo syrthio.

10

Roedd Sacheus wrth ei fodd fod Iesu am ddod i'w dŷ. Ond doedd y bobl eraill ddim yn hapus gyda hyn. Fe wnaethon nhw gwyno fod Iesu'n mynd i aros i dŷ pechadur fel Sacheus.




11



Cafodd Sacheus fywyd newydd trwy Iesu. Dywedodd Sacheus, "Arglwydd, dwi'n mynd i roi hanner popeth sydd gen i i'r rhai sy'n dlawd. Ac os ydwi wedi twyllo pobl tala i bedair gwaith cymaint yn ôl iddyn nhw."

12

Roedd Iesu yn falch fod Sacheus wedi newid. Mae wrth ei fodd pan mae pobl yn troi o wneud pethau drwg a gwneud yr hyn sy'n dda. Dywedodd Iesu, "Dw i, Mab y Dyn, wedi dod i chwilio am y rhai sydd ar goll." Aeth Iesu i chwilio am Sacheus yn Jericho y diwrnod hwnnw - a chael hyd iddo!



13

## Iesu a Sacheus

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Luc 19

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."  
Salm 119:130

14

# Y Diwedd

53

60

15

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol.  
Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16

16